BETH MAE OXFAM YN GWNEUD?

Mae'r adnodd hwn yn helpu disgyblion i weithredu drwy Neges Mewn Llyfr.

Ystod oedran: 9-16

Amser: Dwy wers 45 – 60 munud yr un

Amlinelliad:

Mae'r gweithgareddau hyn yn galluogi'r disgyblion i ddysgu am waith Oxfam a sut y gall pawb wneud eu rhan er mwyn gwneud gwahaniaeth. Bydd yr hyn y byddant yn dysgu yn sail i weithgaredd ysgrifennu llythyr lle bydd y disgyblion yn cyfleu'r hyn maent wedi dysgu i gwsmeriaid sy'n prynu llyfrau yn siopau Oxfam fel rhan o brosiect *Neges Mewn Llyfr* (bydd gan y disgyblion ddewis p'un a ydynt eisiau i'w llythyrau gael eu defnyddio at y diben hwn neu beidio). Gellir defnyddio'r prosiect hefyd i ysbrydoli disgyblion i gasglu llyfrau i'w rhoi i Oxfam, gan eu galluogi i gefnogi gwaith Oxfam drwy godi arian o werthiant lyfrau ynghyd â helpu eraill i wybod mwy am Oxfam.

Amcanion Dysgu

- Bydd y disgyblion yn dysgu sut mae Oxfam yn gweithio gyda phartneriaid i godi'r bobl dlotaf o'u tlodi
- Bydd y disgyblion yn ystyried sut y gallwn ni i gyd wneud gwahaniaeth i roi terfyn ar dlodi
- Bydd y disgyblion yn datblygu eu barn eu hunain ac yn defnyddio eu llais i anfon negeseuon at eraill

Adnoddau

- Cyflwyniad a Gweithgareddau Dosbarth ar PowerPoint
- Clip fideo: vimeo.com/52675051
- Templedi llythyrau gwag: archebwch nhw fan hyn www.oxfam.org.uk/messageinabook
- Darnau o bapur
- Taflenni gwaith wedi'u hargraffu (tudalennau 10-12)

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Dinasyddiaeth – datblygu llais
Daearyddiaeth – lleihau tlodi, trychinebau naturiol
Cymraeg/Saesneg/Llythrennedd – siarad / gwrando, ysgrifennu gan ddwyn perswâd
Sgiliau dysgu a meddwl personol wedi'u cynnwys drwy'r gwaith

Allweddeiriau

Oxfam, tlodi, gweithredu cadarnhaol, llais y disgybl.

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

Posibiliadau o ran trefn dysgu:

Mae’r pecyn adnodd hwn yn cynnig gwahanol opsiynau yn dibynnu ar yr amser sydd gennych ac ar eich ystafell ddosbarth. Daw pob opsiwn i ben â gweithgaredd ysgrifennu llythyr *Neges Mewn Llyfr* a sesiwn lawn i grynhoi’r hyn a ddysgwyd.

Opsiwn 1 (y byrraf): Defnyddio’r gwasanaeth yn lle gwers 1. Defnyddio gwers 2 i ysgrifennu llythyrau.
Opsiwn 2 (canolig o ran hyd): Defnyddio gwersi 1 a 2 ond nid y gwasanaeth.
Opsiwn 3 (yr hiraf): Defnyddio’r gwasanaeth yn ogystal â gwersi 1 a 2.

Defnyddio’r adnodd hwn fel rhan o brosiect *Neges Mewn Llyfr*:

Ewch i www.oxfam.org.uk/messageinabook i gael y manylion llawn.

1. Archebwch dempledi llythyr

Cyn i chi ddechrau addysgu gan ddefnyddio’r adnoddau hyn, gwnewch yn siŵr eich bod wedi archebu templedi llythyr i’r disgyblion eu defnyddio wrth lunio llythyr. Efallai na fydd eich siop Oxfam leol yn derbyn y llythyrau os nad ydynt wedi defnyddio’r templedi. Ewch i www.oxfam.org.uk/messageinabook i gael gafael ar y ffurflen archeb.

2. Defnyddiwch yr adnodd addysgu ac anogwch y disgyblion i gasglu llyfrau

Defnyddiwch yr adnoddau addysgu yn y ddogfen hon ynghyd â’r cyflwyniad PowerPoint. Mae’r adnoddau hyn yn paratoi’r myfyrwyr ac yn eu galluogi i ysgrifennu eu llythyrau am waith Oxfam. Anogwch y disgyblion i ddechrau dod â llyfrau i mewn i’w rhoi i Oxfam.

Llun gan: Ambro

Llun gan: imagerymajestic

3. Trefnwch i roi eich rhoddion o lyfrau a llythyrau i siop benodol

Ffoniwch Oxfam ar 0300 2001 333 er mwyn i ni wneud trefniadau i’ch siop agosaf dderbyn eich rhoddion o lyfrau a llythyrau.

Yn anffodus, ni all Oxfam ddod i gasglu eich rhoddion, felly bydd angen i chi fynd â’r llyfrau a’r llythyrau i’r siop eich hun.

4. Ewch â’r llyfrau a’r llythyrau i siop Oxfam

Bydd Oxfam yn gwerthu llyfrau sydd o ansawdd digonol ac yn rhoi’r llythyrau mewn pentwr wrth y til, gan roi llythyr ym mhob llyfr sy’n cael ei werthu (fel llyfrnod). *Ni fydd* y llythyrau yn cael eu rhoi yn y llyfrau y mae’r disgyblion wedi eu rhoi, felly gofynnwn i chi beidio â rhoi’r llythyrau yn y llyfrau cyn eu rhoi.

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu’r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

GWERS 1 – DYSGU AM OXFAM

Dysgu a meddwl

Gweithgar-edd ac amser	Disgrifiad o'r gweithgaredd	Canlyniadau	Adnoddau
<u>Gweithgar-edd 1.1</u> **Cwis Oxfam** 5-10 munud	Trefnwch y disgyblion yn barau neu'n grwpiau bach. Rhowch amser i'r disgyblion ddyfalu'r atebion i'r cwestiynau ar sleid 21 y cyflwyniad PowerPoint. Mae'r sleid wedi'i hanimeiddio: gwrandewch ar y disgyblion yn dyfalu ateb i bob cwestiwn cyn dangos yr atebion ar y sleid. Gallwch ddyfarnu pwyntiau neu roi sticeri i'w wneud yn fwy o hwyl os ydych yn dymuno.	Bydd y disgyblion yn dysgu'r ffeithiau sylfaenol am Oxfam a gwaith Oxfam.	Sleid 21.
<u>Gweithgar-edd 1.2</u> **Pe byddech chi'n gweithio i Oxfam …** 30-40 munud	Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o 4-6 o ddisgyblion ac esboniwch fod angen iddynt ddychmygu eu bod yn aelodau staff Oxfam ac yn gweithio mewn swyddfa ym Mangladesh a/neu Haïti. Esboniwch fod y rhan fwyaf o staff Oxfam yn dod o'r wlad lle maen nhw'n gweithio a bod Oxfam yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau rhyngwladol a/neu leol a chymunedau lleol i baratoi ar gyfer trychinebau naturiol a mynd i'r afael ag effeithiau trychinebau o'r fath. Rhowch naill ai'r daflen waith '*Llifogydd ym Mangladesh'* neu '*Daeargryn yn Haïti'* (tudalennau 10 ac 11) i'r disgyblion. Gofynnwch iddynt ddarllen y daflen a chynnig atebion i'r problemau sy'n cael eu mynegi yn yr 'her i'r grŵp' ar y daflen waith. Gofynnwch i'r grwpiau sy'n astudio *Llifogydd ym Mangladesh* i sôn am eu syniadau wrth y dosbarth cyfan ac wedyn, yn fyr, dangos sleidiau sy'n rhoi enghreifftiau o sut y bu Oxfam yn gweithio gyda chymunedau lleol i ddatrys problemau a achoswyd gan lifogydd ym Mangladesh (sleidiau 23-36).	Bydd y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o rai enghreifftiau o sut mae Oxfam yn gweithio gydag eraill, gan gynnwys cymunedau lleol, i ddatrys problemau sy'n cael eu hachosi gan	Taflenni gwaith gweithgar-edd 1.2 (tudalennau 10 ac 11). Sleidiau 22-30. Mae cyfeiriadau at fwy o waith darllen am Haïti a

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

	Gan barhau i ddychmygu eu bod yn gweithio i Oxfam ac yn defnyddio arbenigedd sefydliadau a chymunedau lleol, gofynnwch i'r disgyblion werthuso eu hatebion nhw ac atebion Oxfam i'r problemau ac wedyn dewis eu dau neu dri hoff syniad. Efallai y byddant yn dymuno rhestru'r manteision ac anfanteision i'w helpu i benderfynu. Ewch drwy'r un broses eto gyda'r rhai a fu'n astudio taflen waith *Daeargryn yn Haïti*, gan ddangos sleidiau 27-31. **Rhedeg ar amser:** Gallai fod yn anodd rhedeg ar amser yn achos y gweithgaredd hwn, yn arbennig gyda phlant iau. I fyrhau'r gweithgaredd, gallech: • Ddewis astudio'r llifogydd ym Mangladesh yn unig. • Gofyn i'r grwpiau ddewis un neu ddwy broblem yn unig o'r rhestr ar y daflen waith. • Rhoi adborth cryno iawn ac esboniad o'r sleidiau. **Pwysig:** Mae gweithgaredd ***Daeargryn yn Haïti*** yn canolbwyntio ar ymdrin ag effeithiau **uniongyrchol** daeargryn pwerus yn un o wledydd tlotaf y byd. O'r herwydd, y mae'n rhan o waith Oxfam o ymateb i argyfyngau, ac felly caiff y disgyblion eu herio i ystyried sut i ddiwallu anghenion pobl yn syth wedi daeargryn. Mae gweithgaredd ***Llifogydd ym Mangladesh*** yn go wahanol gan ei fod yn ymdrin â'r ffaith bod llifogydd yn gyffredin ac i'w ddisgwyl yno; yn y dasg hon, bydd y disgyblion yn mynd i'r afael â'r her o sut i baratoi cymunedau i ymdopi â llifogydd a'r holl ddinistr a'r problemau y gallant achosi. Mae'n ymwneud, felly ag adeiladau cadernid hirdymor pobl i wrthsefyll y problemau hyn ac felly bydd yr atebion yn cynnwys elfennau o waith datblygu ac ymgyrchu hirdymor Oxfam. Dylid tynnu sylw'r disgyblion at y gwahaniaeth hwn ac yn ddelfrydol cânt y cyfle i ymwneud â'r ddau weithgaredd.	drychinebau naturiol.	Bangladesh ar dudalen 13.

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

Gweithgar-edd ac amser	Disgrifiad o'r gweithgarwch	Canlyniadau	Adnoddau
<u>Gweithgar-edd 1.3</u> **Fideo – beth mae pobl yn gwneud?** 10 – 15 munud	Dangoswch y fideo i'r disgyblion (1 funud 40 eiliad) (<u>vimeo.com/52675051</u>) a gofynnwch iddynt restru'r holl bethau y gwelon nhw bobl yn *gwneud.* Gan ddefnyddio'r rhestr hon, trafodwch gysylltiadau posib â'r ffordd mae Oxfam yn gweithio. Er enghraifft: • *Ffermio* – Mae Oxfam yn darparu dulliau dyfrio, offer a hyfforddiant i ffermwyr. • *Pwmpio dŵr* – Mae Oxfam yn gosod ffynhonnau. • *Godro gwartheg* – Mae Oxfam yn rhoi benthyciadau ariannol neu grantiau i bobl gychwyn busnes. • *Pysgota* – Mae Oxfam yn darparu rhwydi, hyfforddiant ar ddulliau mwy effeithiol o bysgota, ac yn helpu pobl i'w trefnu eu hunain yn gydweithfeydd pysgota. • *Masnachu yn y farchnad* – Mae Oxfam yn rhoi benthyciadau ariannol i bobl i brynu bwyd mewn argyfwng fel llifogydd neu ddaeargryn. • *Gwnïo* – Mae Oxfam yn rhoi arian a chymorth rheoli i fusnesau sy'n cyflogi eraill yn y gymuned. • *Addysgu/dysgu* – Mae Oxfam yn gweithio i ddarparu adeiladau newydd i ysgolion, llyfrau gwaith a hyfforddiant i athrawon. • *Gwers hylendid* – Mae Oxfam yn rhoi gwersi hylendid mewn sefyllfaoedd o argyfwng. Atgoffwch y disgyblion mai diben Oxfam yw helpu pobl i oresgyn eu tlodi eu hunain: mae'n defnyddio arbenigedd sefydliadau a chymunedau lleol i fynd i'r afael â thlodi. Dyna pam bod y fideo hwn yn dangos pobl *yn gwneud pethau drostynt eu hunain*. Os nad yw'r disgyblion wedi gweld y gwasanaeth, cofiwch sôn bod Oxfam yn *ymgyrchu* hefyd (gweler sleid 13). Nid yw hyn yn cael ei gyfleu yn y fideo. Gofynnwch i'r disgyblion beth oedd 'strap line' y fideo hwn. ('Everybody eat, drink, earn and learn: we work to make sure they can'). A yw'r dosbarth yn cytuno â'r nodau mae	Bydd y disgyblion yn atgyfnerthu eu dealltwriaeth o sut mae Oxfam yn gweithio fel sbardun i alluogi pobl i roi terfyn ar eu tlodi eu hunain.	<u>vimeo.com/52675051</u>

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

	Oxfam yn eu mynegi fan hyn?		

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

GWERS 2 – DWEDWCH WRTH ERAILL!

Gweithredu a myfyrio

Gweithgar-edd ac amser	Disgrifiad o'r gweithgaredd	Canlyniadau	Adnoddau
Gweithgar-edd 2.1 **Crynhoi** 3-5 munud	Dewiswch ddisgyblion i rannu'r hyn maent wedi dysgu yn y gwasanaeth / gwers 1. **Gallech eu hysgogi gan ddefnyddio'r cwestiynau hyn:** • Pryd y cychwynnodd Oxfam? *1942* • Ble mae Oxfam yn gweithio? *Mewn 94 o wledydd ledled y byd gan gynnwys yn y DU.* • Beth yw cenhadaeth Oxfam? *Gweithio gydag eraill i oresgyn tlodi a dioddefaint.* • Beth yw'r tair elfen sydd i waith Oxfam? *Argyfyngau, datblygu ac ymgyrchu.* • Pam fod Oxfam yn gwneud yr hyn mae'n gwneud? *Mae Oxfam yn credu nad oes yn rhaid i dlodi fodoli: mae'n anghyfiawnder. Mae digon o adnoddau yn y byd i bawn, felly mae Oxfam yn credu y gall tlodi gael ei waredu a bod yn rhaid ei waredu.* • Allwch chi roi enghreifftiau o sut mae Oxfam yn gweithio? *Paratoi pobl at argyfyngau, ymateb i argyfyngau, ymgyrchu yn erbyn anghyfiawnder, ariannu busnesau newydd, buddsoddi mewn addysg.* • Beth oedd 'strap line' y fideo? *'Everybody eat, drink, earn and learn: we work to make sure they can'.*	Bydd y disgyblion yn cael eu hatgoffa o'r hyn a ddysgwyd yng ngwers 1.	Dim

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

<u>Gweithgar-edd 2.2</u> **Beth allwn ni wneud?** 10-15 munud	Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a rhowch set o naw o gardiau gweithredoedd i bob grŵp. Gofynnwch iddynt gydweithio fel grŵp i osod y gweithredoedd cadarnhaol sydd ar y cardiau mewn trefn 'diemwnt naw' fel y mae sleid 36 yn dangos (gweler isod). Anogwch y disgyblion i drafod pa weithredoedd y maen nhw'n credu yw'r rhai gorau i'w gwneud eu hunain, pa rai sydd angen eu gwneud gan eraill a pha rai fydd yn cael yr effaith fwyaf. Diemwnt Naw 1 2 2 3 3 3 4 4 5 Gofynnwch i'r disgyblion ddangos eu diemwntau ac wedyn eu cylchdroi o amgylch y dosbarth er mwyn i bawb gael gweld pa drefn a ddewisodd y grwpiau eraill, gan nodi'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau. Wedi i'r disgyblion ddychwelyd i'w seddau, dewiswch ddisgyblion i rannu eu harsylwadau ynglŷn â pha rai oedd yn aml ar y brig a pha rai oedd yn aml ar y gwaelod. Rhowch amser i'r disgyblion sôn am y rhesymau dros eu dewisiadau.	Bydd y disgyblion yn meddwl yn feirniadol ynglŷn ag amrywiaeth eang o opsiynau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol wrth daclo tlodi a chefnogi Oxfam.	Sleid 36 sy'n dangos ffurf diemwnt 9. I bob grŵp: Taflen waith Diemwnt Naw (tudalen 12) a siswrn (oni bai eich bod yn paratoi'r cardiau i'r disgyblion eich hun).
<u>Gweithgar-edd 2.3</u> **Llythyrau – trafod syniadau** 10 munud	Esboniwch wrth y disgyblion y byddant yn taflu syniadau am beth i'w ysgrifennu mewn llythyrau y gellid eu rhoi wrth ymyl y til yn eu siop Oxfam leol. Caiff pob llythyr ei roi mewn llyfr a'i werthu i gwsmer (mae sleid 38 yn dangos hyn). Er y bydd cwsmer a fydd yn derbyn llythyr gan ddisgybl wedi prynu llyfr o siop Oxfam, esboniwch ei bod yn bosib na fydd yn gwybod rhyw lawer am y ffyrdd y mae Oxfam yn mynd i'r afael â thlodi: dyma gyfle'r disgyblion i godi ymwybyddiaeth o waith Oxfam. Gallai llythyrau'r disgyblion helpu i berswadio'r rhai sy'n derbyn y llythyrau i ddechrau cefnogi gwaith Oxfam, neu barhau i wneud hynny.	Bydd y disgyblion yn dangos empathi a dealltwriaeth o'r ffyrdd y mae Oxfam yn brwydro'n erbyn tlodi. Bydd y disgyblion	Sleidiau 38-39. Darnau bach o bapur. Cynhwysydd i gasglu'r darnau o

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

	Gan ddefnyddio rhannau cyntaf o frawddegau sydd i'w gweld ar sleid 39, gofynnwch i'r disgyblion eistedd yn dawel am un funud i feddwl beth maen nhw eisiau i'r sawl fydd yn darllen y llythyr wybod am waith Oxfam yn y frwydr yn erbyn tlodi. Ar ôl hyn, gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu eu syniadau ar ddarnau o bapur. Casglwch y rhain a dewiswch rai ohonynt i'w darllen gerbron y dosbarth.	yn dewis elfennau allweddol o waith Oxfam i'w defnyddio yn eu llythyrau.	bapur.
Gweithgar-edd 2.4 **Ysgrifennu Llythyr** 30 munud	Dangoswch y rhannau cyntaf o frawddegau sydd ar sleid 41 i'r disgyblion (yr un rhai ag a ddefnyddiwyd yn y gweithgaredd diwethaf). Dylai hyn barhau i roi cyfeiriad i'w syniadau ynglŷn â'r hyn i'w gynnwys yn eu llythyrau. Rhowch dempled llythyr gwag i bob disgybl i ysgrifennu arno. Efallai y byddwch yn dymuno rhoi amser i'r disgyblion ddrafftio eu llythyrau cyn ysgrifennu'n uniongyrchol ar y templedi. Noder nad oes yn rhaid i'r llythyr fod yn hir: mae cael neges glir yn bwysicach. Efallai y byddai'n well gan rai disgyblion ysgrifennu cerdd neu dynnu llun (gyda brawddeg i esbonio). **Noder:** Gan y bydd y llythyrau yn cael eu dosbarthu i'r cyhoedd, atgoffwch y plant i BEIDIO ag ysgrifennu eu henwau ar y llythyrau (amddiffyn plant).	Bydd disgyblion yn datblygu eu sgiliau i ysgrifennu mewn ffordd sy'n dwyn perswâd drwy ysgrifennu llythyrau a fydd yn cael eu darllen gan y cyhoedd. Bydd y disgyblion yn atgyfnerthu'r hyn maent wedi dysgu am waith Oxfam.	Slei 41. Templedi llythyr gwag – archebwch nhw ar-lein ymlaen llaw drwy dudalen Neges Mewn Llyfr ar y we.

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

<u>Gweithgaredd 2.5</u> **Meddyliau wrth gloi** Yr amser sy'n weddill (os oes amser).	Gofynnwch i'r disgyblion roi adborth yn ysgrifenedig neu ar lafar ynglŷn â'r hyn maent wedi ei ddysgu tra'n astudio gwaith Oxfam. Atgoffwch y disgyblion y gallant ddod â llyfrau i mewn i'w rhoi i'r siop Oxfam leol (sleid 43). Caiff y rhain eu rhoi i Oxfam, ynghyd â'u llythyrau sy'n codi ymwybyddiaeth o waith Oxfam. Bydd yr arian a wneir drwy werthu llyfrau yn helpu i gefnogi gwaith Oxfam. **Dewisol:** Gofynnwch i'r disgyblion a oes ganddynt unrhyw gwestiynau pellach ac ysgrifennwch nhw ar y bwrdd. Gofynnwch iddynt nodi pa gwestiynau fydd â dim ond un ateb, pa rai fydd â nifer o atebion, pa rai fydd yn hawdd eu hateb a pha rai fydd yn anodd. Nid oes angen i chi drio ateb y cwestiynau eich hun – y diben yw sbarduno chwilfrydedd ynddyn nhw i wybod mwy a chael disgyblion i ganolbwyntio ar y math o gwestiynau maent yn gofyn. I gloi, gofynnwch i'r disgyblion roi syniadau ynglŷn â sut y gallant ddod o hyd i atebion i'w cwestiynau.	Bydd y disgyblion yn myfyrio ar y pwyntiau allweddol a ddysgwyd am Oxfam. Bydd y disgyblion yn datblygu eu sgiliau meddwl ac ymchwilio drwy ystyried natur y cwestiynau y maent yn eu gofyn.	Papurau post-it / byrddau gwyn bach, os ydych yn casglu adborth ysgrifenedig. Sleid 43.

Ar ôl i chi gasglu'r llyfrau ac ysgrifennu eich llythyrau, cofiwch eu rhoi i'ch siop Oxfam leol. Os nad ydych wedi cysylltu â siop eto ynglŷn â rhoi'r eitemau hyn i Oxfam, ffoniwch 0300 2001 333 a gall Oxfam eich helpu i ddod o hyd i siop addas yn eich ardal chi. Ewch i <u>www.oxfam.org.uk/messageinabook</u> i gael cyfarwyddiadau llawn.

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

Gweithgaredd 1.2 – Llifogydd ym Mangladesh
Penderfynwch sut i gefnogi pentrefi sy'n dioddef o lifogydd

Y Broblem:
Llifogydd ym Mangladesh

Mae llawer o wlad Bangladesh yn dir isel , heb fod rhyw lawer yn uwch na lefel y môr ac mae llifogydd wastad wedi bod yn gyffredin yno.

Wrth i hinsawdd y byd newid, mae'r llifogydd ym Mangladesh yn mynd yn fwy difrifol ac yn digwydd yn amlach.

Mae'r bobl dlotaf yn gyffredinol yn byw yn yr ardaloedd sy'n fwy tebygol o ddioddef o lifogydd.

Yr her i'ch grŵp:

Rydych yn gweithio i Oxfam. Eich gwaith chi yw gweithio gyda phobl i'w helpu i warchod eu hunain rhag llifogydd i'r dyfodol.

Sut mae datrys y problemau hyn?

- *Yn ystod llifogydd, gall dŵr budr y llifogydd a charthffosiaeth fynd yn gymysg â'r dŵr yfed. Gall hyn wneud pobl yn sâl.*
- *Gall llifogydd olchi tai a chnydau ymaith gan adael pobl heb loches na bwyd.*
- *Mae'n bosibl na fydd pobl sy'n byw mewn pentrefi bach iawn ac arunig yn gwybod pryd fydd llifogydd ar eu ffordd.*
- *Mae'r hinsawdd yn newid, gan olygu bod y tywydd ym Mangladesh yn fwy anodd ei ragweld a bod llifogydd yn fwy tebygol.*

Cadw mewn cof …

- Y peth gorau yw helpu pobl i helpu eu hunain.
- Yn aml, y syniadau symlaf yw'r rhai mwyaf effeithiol.

Ffeithiau am y Wlad

Map o wefan Wikipedia

Enw:

Bangladesh

Prifddinas:

Dhaka

Lleoliad:

De-ddwyrain Asia

Arian Cyfred:

Taka Bangladesh

Iaith Swyddogol:

Bengali

Poblogaeth* (2012):

152 miliwn (62.7 miliwn sy'n y DU)

Safle ar sail 'Cyfoeth' (2012):**

146 o 187 o wledydd (mae'r DU yn rhif 26).

* Yn ôl y Cenhedloedd Unedig 2012
**Mynegai Datblygiad Dynol y Cenhedloedd Unedig – safle yn seiliedig ar incwm, iechyd ac addysg.

Llun gan: Amin/Oxfam
Rhagfyr 2007

Yn y llun hwn mae Sahena yn gwneud ffwrn glai a all gael ei gario i dir uchel pan ddaw llifogydd. Ei mam ddysgodd hi i wneud hyn. Meddai: "Mae pobl wedi paratoi'n well nawr, ond mae'r llifogydd yn gwaethygu. Mae'n llawer mwy anodd rhagweld pryd mae am fod yn dwym a phryd mae am fod yn oer."

Sahena - Llywydd Pwyllgor Menywod sy'n paratoi at argyfyngau - Bangladesh

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

Gweithgaredd 1.2 – Daeargryn yn Haïti
Ymateb i ddaeargryn sy'n mesur 7.0 ar Raddfa Richter

Y Broblem:
Daeargryn dinistriol

Ar 12 Ionawr 2010, trawyd Haïti gan y daeargryn mwyaf pwerus i daro'r wlad mewn 200 mlynedd. Cwympodd cyfanswm o 200,000 o adeiladau,* cafodd mwy na 220,000 o bobl eu lladd, anafwyd 300,000 a chollodd mwy na miliwn o bobl eu cartref.

Yr her i'ch grŵp:

Rydych yn gweithio i Oxfam yn y brifddinas, lle y gwelwyd yr effaith fwyaf. Rydych wedi bod yn helpu i achub pobl a oedd wedi'u dal o dan y rwbel. Mae nawr angen i chi helpu'r rhai sydd wedi goroesi.

Sut y gallech fynd i'r afael â'r problemau canlynol <u>yn ystod y flwyddyn gyntaf</u> ar ôl y daeargryn?

- *Mae angen lloches ar bobl. Maen nhw eisoes wedi adeiladu pebyll o ba bynnag ddeunydd sbâr a oedd ar gael, ond maen nhw'n fregus ac yn gollwng.*
- *Mae angen toiledau ar y rhai sydd wedi colli eu cartrefi. Ond mewn dinas o goncrit, nid yw o hyd yn bosib palu twll i wneud toiled.*
- *Un o anghenion mwyaf sylfaenol pobl yw bwyd: mae pobl yn llwgu. Fel yn y rhan fwyaf o ddinasoedd, nid ffermwyr yw'r rhan fwyaf o bobl, felly maen nhw'n ddibynnol ar brynu bwyd.*
- *Mae angen sicrhau bod gan bobl ddŵr, ond mae adfeilion adeiladau, rwbel a phebyll yn golygu bod cludo a gosod tanciau dŵr mawr yn anodd iawn.*

Cadwch Mewn Cof…

- Gallech gynnig ***'arian am waith'***. Mae hyn yn golygu talu'r rhai sydd wedi goroesi i'ch helpu i wneud pethau. I'r rhai sydd wedi goroesi, mae'r cyfle i ennill arian yn gyfle i ailadeiladu eu bywyd. Hefyd, os oes gan bobl arian i'w wario, mae'n golygu y bydd eraill ar eu hennill wrth iddynt ei wario.
- Mewn ardal drefol fel hon, cofiwch y bydd gan ddigon o bobl sgiliau defnyddiol, fel rheolwyr bwytai, peirianyddion, adeiladwyr, gweithwyr swyddfa a gyrwyr.
- Ni chafodd ffermwyr y tu allan i'r brifddinas eu heffeithio mor ddrwg gan y daeargryn ac mae ganddynt fwyd i'w werthu

Ffeithiau am y Wlad

Map o wefan Wikipedia

Enw:

Haïti

Prifddinas:
Port-au-Prince (Mae 4 miliwn byw yno, fel Birmingham)

Lleoliad:

Gwlad Garibïaidd ar ochr orllewinol ynys 'Hispaniola'. Y Weriniaeth Ddominicaidd sydd i'r dwyrain iddi.

Ieithoedd Swyddogol:

Ffrangeg a Chreoliaith Haïti

Poblogaeth* (2012):

10.2 miliwn (62.7 miliwn sy'n y DU)

Safle ar sail 'Cyfoeth' (2012):**

161 o 187 o wledydd (mae'r DU yn rhif 26).

* Yn ôl y Cenhedloedd Unedig 2012
**Mynegai Datblygiad Dynol y Cenhedloedd Unedig – safle yn seiliedig ar incwm, iechyd ac addysg.

Llun gan: Oxfam

Tynnwyd y llun hwn chwe diwrnod ar ôl i'r daeargryn daro ac mae'n dangos gweithwyr achub yn chwilio am rai sy'n dal yn fyw. Cwympodd cartrefi, swyddfeydd, ffyrdd, ysgolion, ysbytai a gwestai. Yn y dyddiau wedi'r daeargryn, bu Oxfam yn darparu ceibiau a rhofiau i weithwyr sifil lleol glirio'r rwbel a chwilio am bobl sy'n dal yn fyw o dan y rwbel.

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

* Ffynhonnell: http://www.bbc.co.uk/news/world-latin-america-12135850

Gweithgaredd 2.2 Cardiau diemwnt naw

Moes a phryn yn eich siop Oxfam leol

Mae hyn yn helpu i godi arian i Oxfam.

Mae Oxfam yn defnyddio'r arian i helpu pobl i'w helpu eu hunain i oresgyn tlodi.

Prynu nwyddau sydd â Nod Masnach Deg

Mae Masnach Deg yn golygu masnachu nwyddau fel coffi, siocled a dillad mewn ffordd sy'n golygu bod cynhyrchwyr y deunydd craidd, sy'n aml yn byw mewn gwledydd tlawd, yn derbyn pris teg am eu gwaith.

Mae hyn yn golygu bod ganddynt arian i edrych ar eu hôl eu hunain a'u teuluoedd.

Gofalu am yr amgylchedd

Mae problemau gyda'r amgylchedd yn effeithio ar bobl dlawd yn gyntaf, ac i raddau mwy.

Os ydym yn gofalu am yr amgylchedd yn y wlad hon, drwy ailgylchu neu ddiffodd y golau er enghraifft, rydym yn gofalu am y byd yn gyfan a'i holl bobl.

Gwirfoddolwch yn Siop Oxfam

Gall unrhyw un dros 15 oed roi o'i amser i helpu i roi trefn ar ddillad, gosod nwyddau ar y silffoedd a gweithio wrth y til yn eu siop Oxfam leol.

Codwch arian i helpu i wella bywydau pobl

Beth am gynnal digwyddiad noddedig, stondin gacennau neu ddiwrnod i wisgo eich dillad eich hun?

Neu, yn lle prynu dillad neu siocled i'ch ffrindiau a'ch teulu, beth am brynu anrheg *'Oxfam Unwrapped'*? Cewch ddewis anrheg fel gafr i ffermwr neu bensiliau a llyfrau i blentyn ysgol.

Dwedwch wrth eraill am Oxfam

Soniwch wrth eich ffrindiau a'ch teulu am yr hyn rydych wedi ei ddysgu am Oxfam, sut i gefnogi'r gwaith, a sut mae'r gwaith yn gwneud gwahaniaeth.

Ysgrifennwch erthyglau i bapur newydd yr ysgol neu bapur lleol, neu ewch ar y radio!

Ymgyrchu

Gofynnwch i'ch Aelod Seneddol wneud yn siŵr bod y llywodraeth yn gwneud mwy i helpu i roi terfyn ar dlodi – yn y wlad hon ac mewn gwledydd eraill.

Llofnodwch ddeisebau. Cynhaliwch ddigwyddiad i godi ymwybyddiaeth.

www.oxfam.org.uk/get-involved/campaign-with-us

Dysgwch fwy am dlodi a sut i roi terfyn arno.

Gallech ofyn i'ch athro neu athrawes eich helpu i ddysgu mwy.

Gwyliwch y newyddion. Ewch i wefan Oxfam. Gofynnwch gwestiynau.

Mae'r cerdyn hwn wedi ei adael yn wag ar gyfer eich syniad chi

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

Syniadau pellach

- Gofynnwch i'r disgyblion greu eu cyflwyniad eu hunain i annog pobl eraill yn yr ysgol i roi llyfrau. Rhowch y dasg i'r bobl ifanc i greu cwis Oxfam gan ddefnyddio gwybodaeth sydd ar gael ar www.oxfam.org.uk.
- Ewch â'r disgyblion gyda chi i roi eu llyfrau a'u llythyrau ac i ofyn cwestiynau i reolwr y siop.
- Gofynnwch i'r disgyblion lunio datganiad i'r wasg i'r papur lleol, yn sôn am yr hyn wnaethon nhw.
- Gofynnwch i'r disgyblion wneud mwy o waith ymchwil ar Haïti. Fe allen nhw greu cyflwyniad PowerPoint neu boster i rannu'r canfyddiadau gyda gweddill y dosbarth. Gallai hyn gynnwys cymharu'r hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol am y ddwy wlad.

Mwy o wybodaeth am Weithgaredd 1.2

Gwaith Oxfam ym Mangladesh:

Dyma flog da am waith Oxfam yn ymateb i'r llifogydd ym Mangladesh:
http://www.oxfam.org/en/campaigns/climatechange/bangladesh-preparing-flood-disaster

Mae mwy am holl waith Oxfam ym Mangladesh fan hyn:
http://www.oxfam.org.uk/what-we-do/countries-we-work-in/bangladesh

Gwaith Oxfam yn Haïti flwyddyn ar ôl y daeargryn:

At ddibenion gweithgaredd 1.2, rydym yn edrych ar ymateb Oxfam yn 2010 yn unig.

Mae mwy o wybodaeth yn Adroddiad Cynnydd Haïti 2010:
www.oxfam.org/en/policy/haiti-progress-report-2010

Blwyddyn 1 mewn lluniau:
http://www.oxfam.org/en/emergencies/haiti-earthquake/year-one-pictures

Rhai astudiaethau achos o flwyddyn 1 (dolenni da o dan y blog hefyd):
http://blogs.oxfam.org/en/blog/11-01-10-haiti-life-hope

Gwaith Oxfam yn Haïti heddiw

Mae Oxfam wedi parhau ymateb i'r daeargryn hyd heddiw. I gael y wybodaeth ddiweddaraf, ewch i:
www.oxfam.org.uk/what-we-do/countries-we-work-in/haiti.

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Cewch ddefnyddio'r ffotograffau a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y cânt eu defnyddio, rhaid i chi nodi enw'r ffotograffydd sydd wedi ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno ac Oxfam. Ni chewch ddefnyddio delweddau a gwybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i ddyddiad ac amser cynnal y gwaith prosiect dan sylw.